# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhaglen | 2 |
| 6 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf | 6 |
| 7a - Cofnodion Is-Bwyllgor 21-1-14 | 9 |
| 7b - Cofnodion Is-Bwyllgor 20-2-14 | 15 |
| 8 - Ceisiadau Trwydded Eiddo Annilys | 17 |
| Atodiad 1 | 19 |

**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

**CENTRAL LICENSING COMMITTEE**

Dyddiad ac Amser / Date and Time

**10:00yb DYDD LLUN, 23 MEHEFIN 2014**

**10:00am MONDAY, 23 JUNE 2014**

Lleoliad / Location

**SIAMBR HYWEL DDA**

**SWYDDFEYDD Y CYNGOR / COUNCIL OFFICES**

**CAERNARFON**

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**LOWRI HAF EVANS**

**(01286) 679878**

lowrihafevans@gwynedd.gov.uk

Dosbarthwyd / Distributed 13.06.14

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

**CENTRAL LICENSING COMMITTEE**

**Aelodaeth/Membership** (15)

**<u>Plaid Cymru (7)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

Eddie Dogan Huw Edwards

Annwen Hughes Chris Hughes

W. Tudor Owen Ann Williams

sedd wag / vacant seat

**<u>Annibynnol/Independent (4)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

Eryl Jones-Williams Christopher O'Neal

Angela Russell Elfed Williams

**<u>Llais Gwynedd (4)</u>**

Y Cynghorwyr/Councillors

Llywarch Bowen Jones Dilwyn Lloyd

Peter Read Louise Hughes

**<u>Aelod Ex-officio/Ex-officio Member</u>**

Is-gadeirydd y Cyngor/Vice-chairman of the Council

# RHAGLEN

**1. ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd am 2014/15

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd am 2014/15

**3. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatgan o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2013 fel rhai cywir.

(copi yma – papur **gwyn**)

**7. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU**

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol:-

(a) 21.1.2014
(b) 20.2.2014

(copi yma – papur **gwyrdd**)

**8. CEISIADAU TRWYDDED EIDDO ANNILYS**

Cyflwyno, er gwybodaeth adroddiad Pennaeth yr Adran Rheoleiddio

(copi yma – papur **melyn**)

# AGENDA

**1. ELECT CHAIRMAN**

To elect a Chairman for 2014/15

**2. ELECT VICE – CHAIRMAN**

To elect a Vice-chairman for 2014/15

**3. WELCOME AND APOLOGIES**

To receive any apologies for absence.

**4. DECLARATION OF PERSONAL CONNECTION**

To receive any declaration of personal interest.

**5. URGENT ITEMS**

To note any items that are a matter of urgency in the view of the Chairman for consideration.

**6. MINUTES**

The Chairman shall propose that the minutes of the meeting of this Committee, held on 9th of December 2013, be signed as a true record.

(copy herewith – **white** enclosure)

**7. LICENSING SUB-COMMITTEE MINUTES**

To submit, for information, minutes of the Licensing Sub-committee meetings held on the following dates:-

(a) 21.1.2014
(b) 20.2.2014

(copy herewith – **green** enclosures)

**8. INVALID PREMISES LICENCE APPLICATIONS**

To submit the report of the Head of Regulatory Department

(copy herewith – **yellow** enclosures)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 09.12.13

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd W.Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Eddie Dogan, Huw Edwards, Louise Hughes, Dilwyn Lloyd, Llywarch Bowen Jones, Peter Read, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W. Williams,

**Hefyd yn Bresennol:** Dilys Phillips (Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Siôn Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith), Gwenan M. Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Rhan 1**

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cynghorydd W. Tudor Owen, gyda chroeso arbennig i'r Cynghorwyr Louise Hughes a Dilwyn Lloyd i'w pwyllgor cyntaf. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Annwen Hughes.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Medi 2013, fel rhai cywir.

MATERION YN CODI O'R COFNOD:

a) Llythyr Cyngor Dinas Bangor (4.9.2013)

Cadarnhawyd bod ymateb i lythyr Cyngor Dinas Bangor wedi ei anfon 18.10.2013 yn egluro safbwynt y Pwyllgor. Y llythyr yn amlinellu bod yr Is Bwyllgorau yn rhoi ystyriaeth drwyadl i'r holl sylwadau a dderbynnir a bod y penderfyniad yn cael ei wneud ar sail tystiolaeth sydd wedi ei gyflwyno iddynt. Nodwyd nad oedd ymateb pellach wedi ei dderbyn gan Gyngor Dinas Bangor.

**4. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 30 o Fedi a 23ain Hydref 2013.

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth.**

**Rhan 2**

**1. HYFFORDDIANT ANFFURFIOL**

Sesiwn yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau'r Aelodau wrth wasanaethu ar is-bwyllgorau trwyddedu. Yr hyfforddiant wedi ei rannu i 3 rhan:

- **Rôl yr Aelod**
  Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol yn atgoffa'r Aelodau o'u rôl ar yr Is-bwyllgorau.

- **Trefn Gwrandawiadau**
  Rheolwr Cydymffurfiaeth a Iaith yn ymhelaethu ar drefn bresennol y gwrandawiadau.

- **Casgliadau o'r trafodaethau**
  Sylwadau / newidiadau yn cael eu cynnig i'r drefn bresennol:

i. **Trefniadau Pwyllgor**
Y pwyllgor yn cynnig y dylai'r panel beidio ymgynnull gyda'r ymgynghorai cyn i'r cyfarfod ddechrau. Y panel i ymgynull mewn ystafell arwahan ac i ddod ymlaen gyda'i gilydd i'r pwyllgor.
Cytunwyd - y swyddogion i fod yn gyfrifol am y trefniant.

ii. **Ymweliadau Safle.**
Risgiau priodoldeb yn amlwg yma - angen rheolaeth well i'r trefniant.
Cynnig bod adroddiad yr Uned Trwyddedu yn cynnwys mapiau a lluniau o leoliad yr eiddo a rhain yn eu tro yn cael eu harddangos ar daflunydd yn y pwyllgor.
Cynigwyd bod ymweliad safle yn cael ei drefnu mewn achos lle mae eu gwir angen a hynny ar drefniant y swyddogion.
Cytunwyd.

iii. **Gosod terfyn amser i'r sylwadau**
Gwnaed cais i osod terfyn amser ar y sylwadau sydd yn cael eu cyflwyno gan yr ymgynghorai. Hyn yn creu tegwch i bawb.
Cynigwyd terfyn amser o ddim mwy na deg munud.
Cytunwyd.

iv. **Trefn gwrandawiad**
Cynnig bod trefn y gwrandawiad yn cael ei anfon allan ym mhecyn gwybodaeth yr ymgeisydd a'r ymgynghorai.
Cynnig bod y Cadeirydd yn cyfeirio at drefn y gwrandawiad ar ddechrau'r cyfarfod.
Cytunwyd.

v. **Uned Trwyddedu**
Cadarnhau na fydd ceisiadau anghyflawn yn cael eu derbyn gan yr Uned Drwyddedu.

vi. **Nifer y gwrandawiadau**
Cynnig cynnal dau wrandawiad yn unig mewn Is –Bwyllgor Trwyddedu.
Cytunwyd

vii. **Amserlen derbyn sylwadau**
28 diwrnod yw'r cyfnod ymgynghori - ni fydd sylwadau hwyr yn cael eu derbyn.
Cytunwyd - angen rhannu'r wybodaeth gydag Aelodau eraill

viii. **Aelod wrth gefn**
Argymhellwyd bod Aelod o'r panel yn cysylltu gyda'r aelod wrth gefn os na fydd hi / ef yn medru bod yn bresennol
Cytunwyd.

ix. **Niferoedd ar y panel**
Cynigwyd yr angen i gynyddu'r nifer ar y panel o 3 - 5 aelod.
Sion Huws i wirio beth yw gofynion y Ddeddf.

x. **Hyfforddiant.**
Hanfodol bod pob aelod yn derbyn hyfforddiant cyn gwasanaethu ar is-bwyllgor yn y dyfodol.
Cytunwyd - angen gwneud trefniadau i'r pedwar aelod oedd ddim yn bresennol i dderbyn hyfforddiant.

Diolchwyd i bawb am eu sylwadau.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m. a daeth i ben am 12:30am

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 21.01.14

**Yn bresennol**: Cyng. W. Tudor Owen, Cyng. Elfed Williams, Cyng. Dilwyn Lloyd

**Hefyd yn bresennol:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru), Ashley Dacre (Heddlu Gogledd Cymru), Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Gwenan M Williams (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

--------------------------

1. **CROESO**

   Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cyng. W Tudor Owen. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

2. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Dim i'w nodi

3. **MATERION BRYS**

   Dim i'w nodi

4. **CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO – BLACKOUT, 32, FFORDD CAERGYBI, BANGOR**

| | |
|---|---|
| **Ar ran yr eiddo:** | Miss Melody Jones, Mr Harry Bradford |
| **Aelodau Lleol:** | Cyng June Marshall, Cyng Mair Rowlands |
| **Eraill**: | Ms A G Davies (Aelod i Gymdeithas Bangor Uchaf a Phreswylydd cyfagos), Cynghorydd Keith Marshall (Cyngor Dinas Bangor), Mr Gwyn Hughes (Cyngor Dinas Bangor), Ms Bethany Shooman (Gwesty Belle Vue – busnes cyfagos), Mr Chris Jere (Gwesty Belle Vue – busnes cyfagos) |
| **Ymddiheuriadau**: | Cynghorydd Dinas Bangor Rhys Taylor |

Atgoffwyd pawb o'r drefn gwrandawiad ac o bedwar egwyddor y Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen eu hystyried wrth wneud penderfyniad.

Nodwyd bod llythyr yn gwrthwynebu'r cais wedi dod i law'r Uned Trwyddedu 20.12.13 (llythyr dyddiedig 18.12.2013). Amlygwyd er hynny bod y llythyr wedi cael ei recordio ac felly wedi cyrraedd Y Cyngor 19.12.2013 - dyddiad cau gohebiaeth y cais. Gofynnwyd i'r Panel benderfynu os oedd y llythyr i'w gynnwys yn y drafodaeth. Cytunwyd ar sail bod tystiolaeth yn profi bod y llythyr wedi ei dderbyn o fewn y cyfnod priodol. Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ddarllen y llythyr.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu cais, Blackout, 32, Ffordd Caergybi, Bangor am drwydded eiddo o'r newydd. Gwneir y cais mewn perthynas â chyflenwi alcohol, cerddoriaeth wedi ei recordio, a darpariaeth lluniaeth hwyr y nos.
Rhoddwyd manylion am yr oriau arfaethedig a rhestrwyd y mesurau a argymhellwyd gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau i'r cais gan Aelodau Lleol a Chyngor Dinas Bangor. Gwrthwynebwyd y cais ar sail yr amcan trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn, atal niwsans cyhoeddus a diogelwch y cyhoedd oherwydd byddai caniatáu'r cais yn gwaethygu'r effaith gronnol o niwsans, trosedd ac anrhefn o ganlyniad i orddarpariaeth o weithgareddau trwyddedig mewn ardal breswyl.

Nid oedd gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru, ond argymhellwyd cynnwys amodau yn y drwydded yn dilyn cytundeb â'r ymgeisydd.
Nid oedd gan y Gwasanaeth Tan ac Achub wrthwynebiad i'r cais.

Amlygwyd bod Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Gwynedd wedi nodi bod angen caniatâd cynllunio ffurfiol cyn gweithredu gan mai defnydd cynllunio cyfreithiol yr eiddo presennol yw fel siop (A1). Gwnaed sylw bod yr ymgeisydd wedi cadarnhau wrth swyddogion yr Uned Drwyddedu ei bod yn y broses o wneud cais cynllunio newid defnydd llawn ar gyfer yr eiddo.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei chais. Hysbysodd ei bod yn cytuno â'r amodau a argymhellwyd gan yr Heddlu a cadarnhaodd ei bod wedi trafod gyda'r Gwasanaeth Tân faterion megis allanfa dân a chapasiti yr adeilad. Bydd un allanfa dân ar flaen yr eiddo yn ddigonol. Y bwriad yw gwerthu byr brydau yn unig ac nid gwerthu prydau parod oddi ar yr eiddo.

Ategodd nad oedd agor eiddo o'r newydd yn mynd i annog mwy o bobl i ddod allan. Yr eiddo wedi ei leoli mewn ardal brysur ac nid yn treiddio ar gyrion ardal breswyl dim mwy na thafarndai a busnesau eraill. Nododd bod bwriad ganddi i gydweithio gyda'r bobl leol ac nid yn eu herbyn, a'i bod yn hyblyg i unrhyw sylwadau.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiad gan ategu at y sylwadau a nodwyd trwy lythyr:

Nodwyd yn benodol y pwyntiau canlynol –

- Amlygwyd nad oedd gan yr eiddo ganiatâd cynllunio.
- Bangor Uchaf eisoes gyda gorddarpariaeth o fusnesau yn darparu bwyd / alcohol / byr brydau hwyr. O ganlyniad, gorddarpariaeth yn dwysau problemau megis aflonyddwch, sŵn, sbwriel, ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans cyffredinol.
- Gwnaed sylw at y polisi 'Cumulative Impact' sydd yn cael ei ddefnyddio gan rai Awdurdodau Lleol i gyfyngu twf sefydliadau trwyddedig mewn ardal 'broblemus'.
- Digon o sefydliadau adloniant eisoes ar gael i fyfyrwyr.
- Dim ardal ysmygu benodol i'r eiddo – bydd ysmygwyr yn ymgasglu ar ofod cul iawn (palmant) tu allan i'r unig fynedfa sydd ar bwys y prif ffordd.
- Pryderu mai un allanfa dân sydd i'r busnes - anodd coelio bod hyn yn ddigon da i gwsmeriaid a staff o fewn adeilad cul.
- Eglwys Bedyddwyr Penrallt drws nesaf i'r adeilad. Yr Eglwys yn cynnal Clwb Ieuenctid ar nos Wener

- Bydd yr eiddo newydd yn debygol o fod yn atyniad i'r ardal ac felly yn denu mwy o bobl - sefydliad ychwanegol yn creu problemau ychwanegol. Digon yw digon.

Cydnabuwyd bod llythyr wedi ei dderbyn gan y Cynghorydd Rhys Taylor (Cyngor Dinas Bangor) - ymddiheuriad wedi ei nodi.

Adroddodd cynrychiolydd o'r heddlu nad oedd ganddynt dystiolaeth uniongyrchol yn berthnasol i'r eiddo gan ei fod yn gais o'r newydd. Mynegwyd bod y cais wedi cael ei drafod gyda Bill Coppack a bod yntau yn hapus gyda'r cynnwys a bod yr ymgeisydd yn cytuno ag amodau'r Heddlu. Os bydd y cais yn cael ei ganiatáu amlygwyd mai gyda Heddlu Gogledd Cymru ac nid PS483 Bill Coppack y bydd angen trafod hyrwyddo diodydd alcohol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan y panel, nododd yr ymgeisydd bod bwriad ganddi i ymestyn y rheiliau haearn sydd ar gornel tu allan i'r eiddo fel na fydd cwsmeriaid yn sefyll ar y briff ffordd – hyn yn cael ei drafod gyda rheolwyr gwasanaeth cynllunio. Nid oes bwriad gadael i gwsmeriaid gario diod allan o'r adeilad.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr aelodau o'r farn y dylid caniatáu'r cais. Cydymdeimlwyd a'r ymgynghorai, ond nid oedd cyfiawnhad dros beidio caniatáu y cais na rhagdybio problemau o'r fenter newydd yma. Nid oes polisi 'Cumulative Impact' wedi ei fabwysiadu gan Cyngor Gwynedd ac felly nid penderfyniad yr Is Bwyllgor yw dweud bod gor ddarpariaeth o fusnesau tebyg ym Mangor Uchaf.

**PENDERFYNWYD**
**Caniatáu trwydded o'r newydd i eiddo BLACKOUT, 32, FFORDD CAERGYBI, BANGOR yn unol â'r argymhellion ac i gynnwys amod o'r newydd na fydd gwydrau a diodydd i'w cario allan o'r eiddo. (Yn seiliedig ar gais cynllunio).**

- Caniatáu cyflenwi alcohol, dydd Llun i Ddydd Sul o 10:00 - 01:00
- Caniatáu cerddoraieth wedi ei recordio, Dydd Lun i Ddydd Sul o 10:00 - 01:30
- Darparu lluniaeth hwyr y nos, Nos Lun i Nos Sul rhwng 23:00 – 00:00
- Oriau agor a chau i'r cyhoedd, Dydd Llun i Ddydd Sul rhwng 10:00 - 1:30
  (Ymestyniad o hanner awr i bob gweithgaredd trwyddedig, ac oriau cau ar gyfnodau arbennig, megis Wythnos y Glas, Diwrnod Dewi Sant, Sant Padrig, Noson Calan Gaeaf, Noswyl Nadolig a Nos Galan.

  Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu.

- Gweithredu polisi 'Challenge 21'
- Dim plant ar yr eiddo heb oedolyn
- Dim plant ar yr eiddo ar ôl 19:30
- Hyfforddiant i staff

- Ymgynghori gyda'r heddlu cyn cynnal gweithgareddau hyrwyddo diodydd alcohol
- Asesiad risg Diogelwch Tan i'w gynnal mewn cydweithrediad ar Gwasanaeth Tan
- Cwsmeriaid i'w hatgoffa o'r angen i beidio tarfu ar breswylwyr cyfagos wrth ymadael

Derbyn holl argymhellion yr Heddlu fel ag y rhestrwyd isod:

a) Bod system teledu cylch cyfyng digidol yn cael ei osod ac yn gweithio i safon sy'n bodloni'r heddlu a'r awdurdod lleol a byddent yn monitro tu mewn a thu allan i'r adeilad.
b) Yn achos tu fewn i'r eiddo, bydd digon o gamerâu i recordio delweddau o'r holl le sydd ar gael i'r cyhoedd, ar wahân i'r toiledau.
c) Dylai goleuadau'r lleoliad fod o ansawdd da ac yn ddigon cryf i allu adnabod unigolion sy yn yr adeilad.
d) Bydd y system teledu cylch cyfyng yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 31 diwrnod.
e) Pan fydd yr heddlu a'r awdurdod lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau, bydd y delweddau'n cael eu rhoddi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn. Os na fyddai'r busnes yn gallu cydymffurfio â chais dan yr amod hwn, yna mae'n rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am yr adeilad fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y bydd y drwydded yn cael ei hadolygu.
f) Rhaid bod o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawr lwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fydd yr eiddo ar agor.
g) Bod arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i dynnu sylw bod system teledu cylch cyfyng yn weithredol.
h) Y dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel er mwyn i'r heddlu allu eu harchwilio.
i) Bydd y Goruchwyliwr Eiddo Dynodedig yn cadw cofrestr gydnabyddedig gan yr heddlu a'r awdurdod lleol o'r holl staff drysau a gyflogir yn yr eiddo. Bydd y gofrestr yn cynnwys manylion o amser dechrau a gorffen y gwaith, enw a rhif trwydded ADD y person a gyflogir (gan gynnwys enw'r cwmni sy'n eu cyflogi, os yn berthnasol).
j) Cedwir y gofrestr yn barhaol ar yr eiddo ac ar gael i'w harchwilio ar gais yr heddlu neu'r awdurdod lleol. Ar ôl cwblhau'r gofrestr, fe'i cedwir yn yr eiddo am o leiaf blwyddyn o'r dyddiad y'i cwblhawyd, ac am y cyfnod hwnnw bydd ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu'r awdurdod lleol.
k) Bydd goruchwyliwr drws wedi eu cofrestru yn gywir gyda'r Awdurdod Diwydiant Diogelwch (SIA) ac y byddant yn arddangos bathodyn enw cywir.
l) Bydd yr eiddo hwn yn cyflogi o leiaf un goruchwyliwr drws a gofrestrwyd gydag Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SÏA) 22:00 hyd nes bydd yr eiddo yn cau bob nos Iau, nos Wener a nos Sadwrn, oni bai bod yr eiddo wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig gan yr heddlu i beidio.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn bresennol, benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn hysbysu'r ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

## 5. CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO – YATES, GLANRAFON, BANGOR LL57 1LP

**Ar ran yr eiddo:** Mr Steve Burnett (Cyfreithiwr), Mr Stewart Draper (Stoengate Pubs), Mr Tye Healey (Rheolwr Yates), Ms Melissa Hughes (Is Reolwr Yates)

**Eraill**: Mr Gwyn Hughes (Clerc Cyngor Dinas Bangor)

**Ymddiheuriadau**: Dim i'w nodi

Atgoffwyd pawb o'r drefn gwrandawiad ac o bedwar egwyddor y Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen eu hystyried wrth wneud penderfyniad.

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn manylu cais, Yates, Glanrafon, Bangor i geisio am wyriad o oriau agor ar gyfer gweithgareddau trwyddedig; ac er pwrpas diddymu amodau nad ydynt bellach yn addas neu oherwydd eu bod yn rhy gaeth.

Gofynnir am agor yr eiddo i'r cyhoedd am 9:00 y bore, saith diwrnod yr wythnos. Yn bresennol mae'r eiddo yn agor i'r cyhoedd am10:00 y bore o ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac am 11:00 ar fore Sul. Nodwyd y bydd yr oriau ar gyfer gweithgareddau trwyddedig yn cael eu cadw yn unol â'r drwydded gyfredol. Mae manylion o'r amodau sydd angen eu newid / dileu (a'r rhesymau dros y newidiadau) yn gynwysedig yn y cais.

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori priodol, derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau i'r cais gan Cyngor Dinas Bangor. Gwrthwynebwyd y cais ar sail yr amcan trwyddedu o atal trosedd ac anrhefn, diogelu'r cyhoedd ac atal niwsans cyhoeddus. Mynegwyd pryderon am leoliad yr eiddo - mae mewn llecyn sensitif ger y Gadeirlan ac yn agos i eiddo preswyl. Nodwyd bod tystiolaeth yn amlygu bod gwydr a photeli wedi cael eu taflu dros y clawdd i ardd y Gadeirlan ac y buasai dileu'r amod mewn perthynas â gwahardd y defnydd o wydr ar ôl 19:00 yn arwain at berygl i'r cyhoedd. Buasai newid yr amod parthed Goruchwyliwr Drysau hefyd yn arwain at ddiffyg rheolaeth ar gwsmeriaid a all arwain at gynnydd mewn ymddygiad gwrth gymdeithasol.

Nid oedd gwrthwynebiad gan Heddlu Gogledd Cymru, ond mae'r amodau hynny megis dileu'r amod nad yw diodydd i'w gweini mewn cynhwysyddion gwydr ar ol 19:00 wedi eu trafod gyda'r ymgeisydd.

Nid oedd y Gwasanaeth Tan ac Achub wedi cynnig sylwadau.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor a'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i'r Rheolwr Trwyddedu.
- Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais
- Rhoddwyd cyfle i'r ymgynghorai gefnogi eu sylwadau
- Gwahoddwyd deilydd y drwydded neu ei gynrychiolydd i ymateb i'r sylwadau
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i ddeilydd y drwydded.
- Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgynghorai.

Cafodd cynrychiolydd deilwyr y drwydded sef Stonegate Pub Company Ltd gyfle i ymhelaethu ar eu cais. Nododd bod cwmni cyfreithiol Poppleton Allen (yn gweithredu ar ran yr ymgeisydd) wedi ymateb yn ysgrifenedig i Cyngor Dinas Bangor. Cyflwynodd wybodaeth a pholisïau am gwmni Stonegate gan amlinellu bod y cwmni yn gwmni cenedlaethol gydag enw da. Cyfeiriodd bod Mr Tye Healey, Rheolwr Yates, yn Gadeirydd Pubwatch Bangor.

Nid oes tystiolaeth yn cysylltu'r gwydrau a'r poteli i Yates ac nid oes tystiolaeth gyda'r dogfennau yn cadarnhau mai Yates sydd yn gyfrifol am y sbwriel. Nid yw gwydrau a photeli yn cael gadael yr eiddo. Gyferbyn a Yates mae safle tacsi lle gwelir cerbydau a bysiau yn codi a gollwng pobl - mae staff Yates eu hunain yn gweld sbwriel yn cael ei ddisgyn - mae galw yma am finiau ychwanegol. O ran agor am 9:00 y bore, y bwriad yw gweini brecwast. Amlygodd y cyfreithiwr nad oedd bwriad i newid amod Goruchwyliwr Drysau, ond bod angen dileu'r ail amod ar dudalen 18 o'r drwydded.

Manteisiodd y gwrthwynebwyr oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar eu gwrthwynebiad gan ategu'r sylwadau a nodwyd trwy lythyr. Amlygodd y gwrthwynebydd bod ganddo luniau i'w

dangos yng nghyd-destun y sbwriel yn y Gadeirlan. Mynegodd Mr Sion Huws, bod y rheoliadau perthnasol yn darparu y gallai'r is-bwyllgor ystyried unrhyw ddogfennau a gyflwynid ar ddiwrnod y gwrandawiad gyda chytundeb yr holl bartion eraill. Cytunodd yr ymgeisydd y gellid cyflwyno rhai o'r lluniau - cafodd y lluniau yma eu rhannu gyda'r panel.

Nodwyd yn benodol y pwyntiau canlynol gan yr ymgynghorai–

- Y lluniau wedi eu cymryd ar fore Llun yn tystiolaethu gwydr, poteli a chaniau yn y Gadeirlan.
- Cyngor Dinas yn hapus gyda chadw amod Goruchwylwyr Drysau
- Gwerthu diodydd mewn gwydrau ar ol 19:00 yn cynyddu problem sbwriel.

Adroddodd cynrychiolydd o'r heddlu nad oedd ganddynt wrthwynebiad i ddileu rhai o'r amodau. Yn ychwanegol nodwyd bod ymholiadau wedi cael eu gwneud gan yr Heddlu ynglŷn â Thir y Gadeirlan a bod y Bugeiliaid Stryd yn cadarnhau bod problem gwaredu gwydrau yno. Er hynny, nid oes cysylltiad uniongyrchol yma gyda Yates. Tystiwyd hefyd bod staff Yates yn gwahardd cwsmeriaid rhag cario gwydrau allan o'r eiddo.

Manteisiodd yr ymgeisydd ar y cyfle i gloi ei achos. Nid oedd staff y Gadeirlan, Cyngor Dinas, na Swyddogion yr Amgylchedd wedi cysylltu gyda'r eiddo ynglŷn â sbwriel. Nid oedd cyhuddiadau wedi dod i sylw'r Heddlu ac mae Yates yn barod iawn i gydweithio gyda'r Heddlu.

Gadawodd y partïon perthnasol y cyfarfod.

Trafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd gan roddi sylw penodol i egwyddorion Deddf Trwyddedu 2003 sef –

- Rhwystro Trosedd ac Anhrefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
- Amddiffyn Plant rhag Niwed

Roedd yr aelodau o'r farn y dylid caniatáu'r cais. Y cais, ynghyd ag amodau'r heddlu yn gydnaws ac amcanion trwyddedu. Nid oedd tystiolaeth ddigonol i gysylltu'r gwydr ar poteli yn y Gadeirlan fel rhai o Yates.
Cytunwyd dileu amod gweini diodydd mewn gwydrau ond bod Goruchwylwyr drysau i sicrhau nad yw cwsmeriaid yn gadael yr eiddo gyda diod.

**PENDERFYNWYD**
**Caniatáu gwyro trwydded eiddo YATES, GLANRAFON, BANGOR fel a ganlyn:**

- **Yr eiddo i agor i'r cyhoedd am 9:00 y bore, saith diwrnod yr wythnos**

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn bresennol, benderfyniad yr Is-bwyllgor, ac yn hysbysu'r ymgeisydd a'r gwrthwynebwyr o'u hawl i apelio i'r dyfarniad o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 5:15pm

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 20.02.14

**Yn bresennol**: Cyng. Eryl Jones-Williams, Cyng. Louise Hughes, Cyng Ann Williams

**Hefyd yn bresennol:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu Heddlu Gogledd Cymru), Geraint Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Williams (Rheolwr Trwyddedu), Heilyn Williams (Swyddog Trwyddedu) a Lowri H Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu),

--------------------------

**1. CROESO**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Jones-Williams. Cyflwynwyd y panel ar swyddogion i bawb oedd yn bresennol.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AM AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO – Y CWRT, BALA**

**Ar ran yr eiddo:** Mr Maesoud Anafcheh, Ms Moira Mai

**Eraill**: Mr Martin Tranter (S A Brains), Mr M Phipps (S A Brains), Mr Paul Grainge (Preswylydd Lleol), Ms Valerie Floyd (Preswylydd Lleol)

**Ymddiheuriadau**: Dim i'w nodi

Amlygodd y Cadeirydd bod pryder wedi codi ynglŷn â hawliau'r panel i ystyried y cais dan sylw gan nad oedd y broses hysbysebu yn cydymffurfio a gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

**Ar gyngor cyfreithiol, penderfynodd yr Is-bwyllgor nad oedd modd gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r cais:**

1. **Mae grym yr Is-bwyllgor i ystyried cais gwyro yn deillio o adran 35 o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 ("y Ddeddf"). Tydi'r adran honno ddim ond yn gymwys os yw'r awdurdod yn derbyn cais i wyro trwydded o dan adran 34 ac yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â gofynion a bennir yn sgil adran 34(5) o'r Ddeddf.**
2. **Mae adran 34(5) yn pennu bod y ddyletswydd i lunio rheoliadau o dan adran 17(5) o'r Ddeddf hefyd yn gymwys i geisiadau o dan adran 34.**
3. **Mae adran 17(5) yn pennu bod gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol lunio rheoliadau sydd yn gofyn i'r ymgeisydd hysbysebu cais mewn ffordd benodol.**
4. **O dan reoliad 25 o'r Rheoliadau Deddf Trwyddedu 2003 (Trwyddedau Mangre a Thystysgrifau Mangre Clwb) 2005, mae gofyn i ymgeisydd ymhlith pethau eraill gyhoeddi hysbyseb o'r cais (i) mewn papur newydd newydd neu ddogfen gyffelyb, sydd yn cylchredeg yn ardal y fangre, a (ii) ar o leiaf un achlysur o fewn cyfnod o 10 diwrnod gwaith gan gychwyn gyda'r diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddwyd y cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol.**
5. **Y dyddiad y cyflwynwyd y ffurflen gais i'r Cyngor yw 8 Gorffennaf 2013. Byddai felly wedi bod gofyn i'r ymgeisydd gyhoeddi hysbyseb ar unrhyw ddyddiad rhwng 9 Gorffennaf 2013 ac 18 Gorffennaf 2013.**

6. **Mewn perthynas â'r cais hwn cafwyd ar ddeall na chyhoeddwyd unrhyw hysbyseb yn ystod y cyfnod uchod. Nid oedd tystiolaeth bod y cais wedi ei hysbysebu yn ystod y cyfnod statudol.**
7. **Yn yr amgylchiadau, nid oedd yr Is-bwyllgor yn fodlon bod y cais yn cydymffurfio â gofynion adran 34(5) o'r Ddeddf. O ganlyniad nid oedd gan yr Is-bwyllgor awdurdodaeth i benderfynu ar y cais o dan adran 35. Os yw'r ymgeisydd yn dymuno gwyro ei drwydded, bydd gofyn cyflwyno cais gwyro o'r newydd.**

Mynegwyd siom nad oedd modd parhau gyda'r gwrandawiad gan bod gohebiaeth wythnosol wedi ei gynnal gyda'r partion perthnasol a'r Uned Drwyddedu. Awgrymwyd y dylai'r wybodaeth ynghlyn a'r diffygion yn y broses hysbysebu fod wedi eu datrys cyn galw am wrandawiad.

Mynegwyd yn ogystal fod yn arferiad gan Awdurdodau Trwyddedu i ymestyn cyfnod ymgynghori ar gais mewn amgylchiadau lle nad ydyw'r ymgeisydd wedi llwyddo i hysbysebu'r cais yn unol â gofynion y rheoliadau.

Cytunwyd er hynny, bod rhaid cadw at drefn. Canlyniad y gwrandawiad yn debygol o fod yn agored i her ac felly angen sicrhau bod gofynion y ddeddf yn cael eu cyfarch.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'n anelu at anfon llythyr yn cadarnhau yn ffurfiol i bawb oedd yn bresennol, benderfyniad yr Is-bwyllgor.

Hysbyswyd yr ymgeisydd y bydd angen iddo wneud cais o'r newydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 11:00pm a daeth i ben am 11:55pm

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **23 MEHEFIN 2014** |
| **TEITL:** | **CEISIADAU TRWYDDED EIDDO ANNILYS** |
| **PWRPAS:** | **ER GWYBODAETH** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH YR ADRAN RHEOLEIDDIO** |

CEFNDIR

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor er gwybodaeth. Mae'r adain Drwyddedu wedi derbyn sawl cais am drwydded eiddo, neu gais am amrywiad o drwydded eiddo yn ddiweddar sydd wedi gorfod cael eu gwrthod fel ceisiadau annilys gan y swyddogion oherwydd nad ydynt wedi eu cyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu a'r rheoliadau perthnasol.

GOFYNION Y DDEDDFWRIAETH A'R RHEOLIADAU PERTHNASOL

Mae'r Ddeddf Drwyddedu 2003, a'r rheoliadau perthnasol - Y Ddeddf Drwyddedu 2003(Trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb) Rheoliadau 2005(SI 2005/42 fel y diwygiwyd yn gosod allan yn glir beth yw'r gofynion a disgwyliadau gan ymgeiswyr wrth gyflwyno cais am drwydded eiddo, neu i amrywio trwydded eiddo. Mae'r ffurflenni cais a ddefnyddir i gyflwyno cais yn cynnwys y wybodaeth mae ymgeisydd angen er mwyn sicrhau fod y cais yn cael ei gyflwyno a'i hysbysebu yn unol â'r gofynion.

Pan mae cais yn cael ei gyflwyno mae'n rhaid sicrhau fod y camau canlynol yn cael eu dilyn –

1. Cais i gael ei gyflwyno ar ffurflen briodol
2. Cais i gynnwys cynllun o'r ardal drwyddedig arfaethedig
3. Derbyn y ffi perthnasol gyda'r cais
4. Cais i gynnwys copi o'r drwydded gyfredol ( neu'r rhan perthnasol o'r drwydded honno) os nad oes rheswm da na ellir gwneud hynny
5. Sicrhau fod pob Awdurdod Cyfrifol yn derbyn copi o'r cais ynghyd a'r dogfennau perthnasol ar y diwrnod y rhoddir y cais i'r awdurdod trwyddedu perthnasol.

Mae'r Rheoliadau perthnasol - Y Ddeddf Drwyddedu 2003(Trwyddedau eiddo a thystysgrifau eiddo clwb) Rheoliadau 2005 (SI 2005/420) fel y diwygiwyd hefyd yn gosod gofynion pendant ar ymgeiswyr am drwydded mewn perthynas â'r modd y hysbysir ceisiadau. Yn benodol mae'r gofynion hyn yn cynnwys yr angen i -

- Arddangos rhybudd o'r cais am 28 diwrnod yn olynol yn cychwyn ar y diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddir y cais i'r Awdurdod Trwyddedu
- Mae'n rhaid i'r rhybudd fod gymaint â maint A4 neu fwy
- Lliw glas golau
- Print du, maint ffont o leiaf 16
- Arddangos y rhybudd mewn lle amlwg a hwylus i gael ei ddarllen o du allan i'r eiddo

- Cyhoeddi hysbyseb o'r cais mewn papur lleol sydd gyda chylchrediad yng nghyffiniau'r eiddo o leiaf un waith yn ystod cyfnod o 10 diwrnod yn cychwyn y diwrnod ar ôl y diwrnod y rhoddwyd y cais i'r Awdurdod Trwyddedu

Ymhellach i hyn, fe fanylir ar y wybodaeth a ddylid ei gynnwys ar y rhybudd o gais yn y rheoliadau –
- Dylid cynnwys datganiad o'r gweithgareddau trwyddedig perthnasol arfaethedig,
- Enw'r ymgeisydd
- Cyfeiriad post yr eiddo

- Cyfeiriad post ac os yn berthnasol cyfeiriad gwefan y r Awdurdod Trwyddedu lle y cedwir y gofrestr a lle a phryd y gellir gwirio'r cais
- Dyddiad erbyn pryd y dylid gwneud sylwadau ar y cais i'r Awdurdod Trwyddedu
- Fod rhaid i unrhyw sylwadau a wneir ar gais fod yn ysgrifenedig
- Fod yn drosedd i wneud datganiad ffug neu ddi -hid mewn perthynas â'r cais a'r uchafswm y gosb am wneud datganiad o'r fath

**<u>Oblygiadau cyflwyno cais annilys</u>**

Mae goblygiadau cyflwyno cais annilys yn gallu achosi rhwystredigaeth a chostau ychwanegol i ymgeisydd oherwydd bod rhaid ail gyflwyno cais ynghyd a chyfnod ymgynghori newydd. Yn anffodus , nid yw'r ddeddfwriaeth yn darparu unrhyw fodd o allu ad- dalu ffi am gais am drwydded yn ôl i'r ymgeisydd; ac mae disgwyl i 'r ymgeisydd dalu ffi arall os ail gyflwynir y cais.
Pan mae cais yn cael ei gyflwyno yn annilys; mae'r Awdurdod Trwyddedu yn parhau i wynebu costau o brosesu y cais hwnnw. Yn ogystal â hyn, mae'n debygol y bydd yr ymgeisydd yn gorfod talu am ail hysbysebu ei gais mewn papur lleol, yn unol â'r gofynion.
Mae swyddogion yr Uned Drwyddedu yn ymdrechu ar bob achlysur i roi cyngor i ymgeiswyr i sicrhau eu bod yn cyflwyno eu cais mewn modd priodol. Mae gwybodaeth gynhwysfawr ar gael hefyd ar wefan y Swyddfa Gartref ar sut i gyflwyno cais yn gywir. Gall ymgeisydd benodi cyfreithiwr neu asiant sydd yn arbenigo yn y maes trwyddedu i baratoi a chyflwyno cais ar eu rhan os ydynt yn dymuno.

**<u>Sefyllfa gyfreithiol</u>**

Fe fyddwch fel aelodau'n ymwybodol fod ceisiadau wedi dod gerbron Is Bwyllgor o'r Pwyllgor hwn am wrandawiad; a bod tystiolaeth wedi ei dod i law nad oedd ceisiadau wedi eu cyflwyno'n unol a gofynion y ddeddfwriaeth a'r rheoliadau perthnasol. Yn yr achosion hyn, fe ddatganodd y swyddog cyfreithiol yn glir nad oes gan swyddogion na'r Is Bwyllgor yr awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniadau ar geisiadau annilys.
Mewn ymateb i hyn, mae mesurau wedi eu rhoi mewn lle i dynhau'r broses o graffu bob cais a dderbynnir er mwyn ceisio sicrhau na fydd ceisiadau annilys yn cael eu cyfeirio at yr Is Bwyllgor am benderfyniad.

**<u>Argymhelliad</u>**

Gofynnir am gefnogaeth y Pwyllgor i swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu weithredu gyda'r nod o sicrhau nad ydyw ceisiadau annilys yn cael eu cyflwyno.

**ATODIAD 1 / APPENDIX 1 –**
**RHANNAU PERTHNASOL O'R DDEDDF A'R RHEOLIADAU PERTHNASOL**
**RELEVANT PARTS OF THE ACT ON RELEVANT REGULATIONS**

**17 Application for premises licence**

(1) An application for a premises licence must be made to the relevant licensing authority.

(2) Subsection (1) is subject to regulations under—
 (a) section 54 (form etc of applications etc);
 (b) section 55 (fees to accompany applications etc).

(3) An application under this section must also be accompanied—
 (a) by an operating schedule,
 (b) by a plan of the premises to which the application relates, in the prescribed form, and
 (c) if the licensable activities to which the application relates ("the relevant licensable activities") include the supply of alcohol, by a form of consent in the prescribed form given by the individual whom the applicant wishes to have specified in the premises licence as the premises supervisor.

(4) An "operating schedule" is a document which is in the prescribed form and includes a statement of the following matters—

 (a) the relevant licensable activities,
 (b) the times during which it is proposed that the relevant licensable activities are to take place,
 (c) any other times during which it is proposed that the premises are to be open to the public,
 (d) where the applicant wishes the licence to have effect for a limited period, that period,
 (e) where the relevant licensable activities include the supply of alcohol, prescribed information in respect of the individual whom the applicant wishes to have specified in the premises licence as the premises supervisor,
 (f) where the relevant licensable activities include the supply of alcohol, whether the supplies are proposed to be for consumption on the premises or off the premises, or both,
 (g) the steps which it is proposed to take to promote the licensing objectives,
 (h) such other matters as may be prescribed.

(5) The Secretary of State must by regulations—

 (a) require an applicant to advertise his application within the prescribed period—

  (i) in the prescribed form, and
  (ii) in a manner which is prescribed and is likely to bring the application to the attention of the [persons who live, or are involved in a business, in the relevant licensing authority's area and who are] likely to be affected by it;
 [(aa) require the relevant licensing authority to advertise the application within the prescribed period—
  (i) in the prescribed form, and
  (ii) in a manner which is prescribed and is likely to bring the application to the attention of the persons who are likely to be affected by it; and]
 (b) . . .
 (c) prescribe the period during which [responsible authorities and other persons] may make representations to the relevant licensing authority about the application.

[(6) The Secretary of State may by regulations—

 (a) require an applicant to give notice of his application to each responsible authority, and such other persons as may be prescribed, within the prescribed period, and
 (b) in a case where the application is made by means of a relevant electronic facility, require the relevant licensing authority to give notice of the application to such persons as may be prescribed, within the prescribed period.]

**S 34 Application to vary premises licence**

(1) The holder of a premises licence may apply to the relevant licensing authority for variation of the licence.

(2) Subsection (1) is subject to regulations under—

(a)section 54 (form etc. of applications etc.);

(b)section 55 (fees to accompany applications etc.).

(3) An application under this section must also be accompanied by the premises licence (or the appropriate part of that licence) or, if that is not practicable, by a statement of the reasons for the failure to provide the licence (or part).

(4) This section does not apply to an application within section 37(1) (application to vary licence to specify individual as premises supervisor).

(5) The functions of the Secretary of State under subsections (5) and (6) of section 17 (advertisements etc. of application) apply in relation to applications under this section as they apply in relation to applications under that section.

**S 54 Form etc. of applications and notices under Part 3**

In relation to any application or notice under this Part, regulations may prescribe—

(a) its form;

(b) the manner in which it is to be made or given;

(c) information and documents that must accompany it.

**S 55 Fees**

(1) Regulations may—

(a) require applications under any provision of this Part (other than section 51) or notices under section 47 to be accompanied by a fee, and

(b) prescribe the amount of the fee.

(2) Regulations may also require the holder of a premises licence to pay the relevant licensing authority an annual fee.

(3) Regulations under subsection (2) may include provision prescribing—

(a) the amount of the fee, and

(b) the time at which any such fee is due.

(4) Any fee which is owed to a licensing authority under subsection (2) may be recovered as a debt due to the authority

**Licensing Act 2003 (Premises licences and club premises certificates) Regulations 2005 (SI 2005/42)**

**Regulation 25**

In the case of an application for a premises licence under section 17, for a provisional statement under section 29, to vary a premises licence under section 34 [(except where the only variation sought is the inclusion of the alternative licence condition)], for a club premises certificate under section 71 or to vary a club premises certificate under section 84, the person making the application shall advertise the application, in both cases containing the appropriate information set out in regulation 26—

(a) for a period of no less than 28 consecutive days starting on the day after the day on which the application was given to the relevant licensing authority, by displaying a notice,

(i) which is—

(aa) of a size equal or larger than A4,

(bb) of a pale blue colour,

(cc) printed legibly in black ink or typed in black in a font of a size equal to or larger than 16;

(ii) in all cases, prominently at or on the premises to which the application relates where it can be conveniently read from the exterior of the premises and in the case of a premises covering an area of more than 50 metres square, a further notice in the same form and subject to the same requirements every fifty metres along the external perimeter of the premises abutting any highway; and

(b) by publishing a notice—

(i) in a local newspaper or, if there is none, in a local newsletter, circular or similar document, circulating in the vicinity of the premises;

(ii) on at least one occasion during the period of 10 working days starting on the day after the day on which the application was given to the relevant licensing authority.

**Regulation 26**

(1) In the case of an application for a premises licence or a club premises certificate, the notices referred to in regulation 25 shall contain a statement of the relevant licensable activities or relevant qualifying club activities as the case may require which it is proposed will be carried on on or from the premises.

(2) In the case of an application for a provisional statement, the notices referred to in regulation 25—

(a) shall state that representations are restricted after the issue of a provisional statement; and

(b) where known, may state the relevant licensable activities which it is proposed will be carried on or from the premises.

(3) In the case of an application to vary a premises licence or a club premises certificate, the notices referred to in regulation 25 shall briefly describe the proposed variation.

(4) In all cases, the notices referred to in regulation 25 shall state—

(a) the name of the applicant or club;
(b) the postal address of the premises or club premises, if any, or if there is no postal address for the premises a description of those premises sufficient to enable the location and extent of the premises or club premises to be identified;
(c) the postal address and, where applicable, the worldwide web address where the register of the relevant licensing authority is kept and where and when the record of the application may be inspected;
(d) the date by which [a responsible authority or any other person] may make representations to the relevant licensing authority;
(e) that representations shall be made in writing; and
(f) that it is an offence knowingly or recklessly to make a false statement in connection with an application and the maximum fine for which a person is liable on summary conviction for the offence.

**Regulation 27 – Notice to responsible authority: applications made by means of relevant facility**

(1) Where—

(a) an application to which this regulation applies is made by means of a relevant electronic facility, and
(b) any plan or document required to accompany the application is given by means of that facility, the relevant licensing authority must, no later than the first working day after the application was given to the authority, give notice of the application to each responsible authority by giving each authority a copy of the application together with any accompanying plan or document.

(2) This regulation applies to an application for—

(a) a premises licence under section 17;
(b) a provisional statement under section 29;
(c) variation of a premises licence under section 34;
(d) minor variation of a premises licence under section 41A;
(e) a club premises certificate under section 71;
(f) variation of a club premises certificate under section 84;
(g) minor variation of a club premises certificate under section 86A.]

**Regulation 27A – Notice to responsible authority**

[In the case of—

(a) an application of a kind referred to in regulation 27(2) made otherwise than as described in regulation 27(1), or
(b) an application for a review under section 51 or section 87,
the person making the application must give notice of the application to each responsible authority by giving each authority a copy of the application together with its accompanying plan, document or other information on the same day as the day on which the application is given to the relevant licensing authority